***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, Paragraff 36. (See end of Document for details)*

## ATODLEN 7

## PARTNERIAETHAU

### RHAN 8

### TROSGLWYDDIADAU SY'N YMWNEUD Â PHARTNERIAETHAU BUDDSODDI MEWN EIDDO

*Dewis gan bartneriaeth buddsoddi mewn eiddo i ddatgymhwyso paragraff 13*

36 (1) Nid yw paragraff 13 yn gymwys i drosglwyddo buddiant trethadwy i bartneriaeth buddsoddi mewn eiddo os yw'r prynwr yn y trafodiad yn dewis i'r paragraff hwnnw beidio â bod yn gymwys.

(2) Pan wneir dewis o dan y paragraff hwn mewn cysylltiad â thrafodiad—

(a) mae paragraff 21 (trosglwyddo buddiant trethadwy o bartneriaeth: cyffredinol) hefyd wedi ei ddatgymhwyso,

(b) cymerir mai'r gydnabyddiaeth drethadwy ar gyfer y trafodiad yw gwerth marchnadol y buddiant trethadwy a drosglwyddir, ac

(c) mae'r trafodiad o fewn Rhan 3 (trafodiadau cyffredin gan bartneriaeth) o'r Atodlen hon.

(3) Rhaid i ddewis o dan y paragraff hwn gael ei gynnwys ar y ffurflen dreth a ddychwelir mewn perthynas â'r trafodiad, neu mewn diwygiad i'r ffurflen dreth honno (gweler adran 41 o DCRhT am ddarpariaeth ynghylch diwygio ffurflenni treth).

(4) Mae'r dewis yn un di-alw'n-ôl, felly ni chaniateir diwygio'r ffurflen dreth er mwyn tynnu'r dewis yn ôl.

(5) Pan wneir dewis o dan y paragraff hwn mewn cysylltiad â thrafodiad (y "prif drafodiad") mewn diwygiad i ffurflen dreth—

(a) mae'r dewis yn cael effaith fel pe bai wedi ei wneud ar y dyddiad y dychwelwyd y ffurflen dreth, a

(b) caniateir diwygio unrhyw ffurflen dreth mewn cysylltiad â thrafodiad yr effeithir arno (o fewn y cyfnod a ganiateir ar gyfer diwygio'r ffurflen dreth honno) er mwyn adlewyrchu'r dewis hwnnw.

(6) Yn is-baragraff (5), ystyr "trafodiad yr effeithir arno" mewn perthynas â'r prif drafodiad yw trafodiad—

(a) yr oedd paragraff 34 (trosglwyddo buddiant mewn partneriaeth buddsoddi mewn eiddo) yn gymwys iddo, a

(b) sy'n cael effaith ar y dyddiad, neu ar ôl y dyddiad, y mae'r prif drafodiad yn cael effaith.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 7 para. 36 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 81(2)**

**I2** Atod. 7 para. 36 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/34, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, Paragraff 36.